


Cysylltiadau ag agweddau eraill ar y Cwricwlwm

Mae'r darnau y cyfeirir atynt isod yn darparu cyfleoedd i gysylltu â meysydd eraill o'r Cwricwlwm:

Darn	Cyfleoedd i gysylltu â'r meysydd canlynol:
ShwmaeSumae	<p>Mathemateg</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae cyfle i drafod symiau o arian wrth gyfrifo cyfanswm y costau ar gyfer creu bathodynau a chyfrifo faint fydd pris pob bathodyn unigol fel na wneir colled nac elw; hefyd, mae modd gweithio gyda chanrannau wrth gyfrifo cost cacennau o dan amodau penodol <p>Dylunio a Thechnoleg</p> <ul style="list-style-type: none"> • dylunio a chreu bathodynau • Mae cyfle i greu murlun, posterï a deunydd hyrwyddo • gwneud ac addurno cacennau <p>Celf a Dylunio</p> <ul style="list-style-type: none"> • creu delwedd ar gyfer bathodynau • cyfle i greu murlun, posterï a deunydd hyrwyddo <p>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu</p> <ul style="list-style-type: none"> • creu bathodynau • chwilio am wybodaeth • cynhyrchu deunyddiau hyrwyddo • gwneud fideo o'r digwyddiad <p>Cerddoriaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gellid chwarae a gwerthuso cerddoriaeth Gymraeg yn ystod y digwyddiad
Hwyl – yr Urdd (1)	<p>Daearyddiaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyfle i chwilio am leoedd penodol ar fap ac i greu map yn dangos y ddwy daith i wersylloedd yr Urdd • cyfle i ddysgu am Gaerdydd ac ardal Glan-Ilyn <p>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu</p> <ul style="list-style-type: none"> • chwilio am wybodaeth ar wefan yr Urdd
Gweithio mewn salon cŵn	<p>Mathemateg</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyfle i greu a thrafod rhestr brisiau, gwneud posau'n seiliedig ar y rhestr ac ati
Carwyn yn y caffi	<p>Mathemateg</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyfle i greu bwydlenni, gan gynnwys prisiau, gwneud posau'n seiliedig ar y rhestr ac ati; gellid cynnig gostyngiad ar rai prydau a bargeinion arbennig a fyddai'n golygu mwy o waith cyfrifo
Hwyl – yr Urdd (2)	<p>Cerddoriaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gellid chwarae a gwerthuso darn o gerddoriaeth o'r sioe
Gweithio ar drac beicio	<p>Daearyddiaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> • cynllunio llwybr beicio o gwmpas yr ardal <p>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu</p> <ul style="list-style-type: none"> • trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau • gwneud cyflwyniad PowerPoint



DJ o Gymru	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu <ul style="list-style-type: none"> • chwilio am wybodaeth
Dewch i fwynhau	Hanes <ul style="list-style-type: none"> • cyfle i gyflwyno gwybodaeth am Owain Glyndŵr ac i ymchwilio ymhellach Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu • cyfle i gyflwyno ffotograffau a chapsiynau Daearyddiaeth <ul style="list-style-type: none"> • cyfle i chwilio am leoedd penodol ar fap Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu <ul style="list-style-type: none"> • trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau • chwilio am wybodaeth
Hwyl – yr Urdd (3)	Hanes <ul style="list-style-type: none"> • cyfle i ddysgu am hanes yr Urdd Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu <ul style="list-style-type: none"> • chwilio am wybodaeth • trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau Mathemateg <ul style="list-style-type: none"> • cyfle i drin rhifau mawr
Gŵyl gerddoriaeth grêt	Cerddoriaeth <ul style="list-style-type: none"> • trafod mathau gwahanol o gerddoriaeth • chwarae a gwerthuso darnau o gerddoriaeth Gymraeg Mathemateg <ul style="list-style-type: none"> • Creu a defnyddio holiadur, gwneud siart cylch i egluro'r canfyddiadau; egluro'r siart cylch
Dyddiadur Catrin	Hanes <ul style="list-style-type: none"> • Rhoddir ychydig o gefndir sefydlu S4C – mae modd datblygu'r gwaith hwn os yw'n briodol

Y cwricwlwm Cymreig


Prif thema'r rhifyn hwn yw **Cymru – hwyl, gŵyl a gwaith** ac felly canolbwyntir ar rai o fudiadau Cymru, e.e. Urdd Gobaith Cymru a'r mentrau iaith; sonnir am ymgyrchoedd megis **ShwmSumae**; ceisir dangos pa mor bwysig yw medru cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg ym myd gwaith a cheir darn am Huw Stephens sy'n dangos pa mor bwysig yw'r iaith iddo. Sonnir am raglenni Cymraeg a'r cyflwynydd Rhodri Owen a cheir ychydig o hanes sefydlu S4C – mae modd ehangu ar y gwaith hwn, wrth gwrs. Mae cyfleoedd i wrando ar gerddoriaeth Gymraeg a'i gwerthuso yn ogystal.

Mae'r cwis rhyngweithiol yn adolygu / cyflwyno ffeithiau am Gymru ac mae modd gosod gwaith ymchwil pellach.

Datblygu meddwl

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy'r prosesau **cynllunio, datblygu a myfrio**:

- archwilio, cynllunio, datblygu ac ystyried syniadau drwy siarad, darllen ac ysgrifennu ac ymateb i'w gwaith eu hunain ac i waith eraill
- dadansoddi, strwythuro a threfnu eu gwaith
- defnyddio iaith yn greadigol



- defnyddio gwallau a chanlyniadau annisgwyl i ddatblygu eu dysgu
- defnyddio eu gwybodaeth o iaith i egluro a rhagfynegi
- adnabod patrymau a ffurfio rheolau
- trafod sut byddant yn dysgu iaith ac yn gwerthuso eu llwyddiant.

Datblygu cyfathrebu

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm trwy'r sgiliau **llafaredd, darllen, ysgrifennu a chyfathrebu ehangach**:

- cyfathrebu trwy lafaredd, darllen ac ysgrifennu, gan ddatblygu'r sgiliau hyn trwy werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eraill
- dysgu sut i gyfathrebu yn effeithiol ar gyfer ystod o ddibenion a chydag ystod o gynulleidfaoedd.
- ymdrin ag iaith estynedig a mwyfwy cymhleth er mwyn datblygu i ddefnyddio iaith yn annibynnol ac yn hyderus.

Datblygu TGCh

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy **ddarganfod, datblygu, creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd:

- cyfathrebu a rhannu gwybodaeth
- defnyddio technoleg ar gyfer ymchwil, datblygu a chyflwyno'u gwaith.

Datblygu rhif

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif ar draws y cwricwlwm trwy **ddefnyddio gwybodaeth fathemategol, cyfrifo, a dehongli a chyflwyno casgliadau**:

- defnyddio trefnolion a rhifolion
- cywain gwybodaeth mewn gwahanol ffyrdd
- cyrchu, dethol, cofnodi a chyflwyno data mewn gwahanol fformatau.

[Cymraeg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru, 2008, tud. 7]

